Fflatiau Dangos – Canllawiau:

Diolch am gytuno i fod yn rhan o'r Cynllun Fflatiau Dangos. Drwy gymryd rhan yn y cynllun, rydych chi'n galluogi darpar fyfyrwyr i ymweld â'n preswylfeydd yn ystod y flwyddyn academaidd, yn yr un modd, efallai ag y cawsoch chi gyfle i wneud hyn yn ystod Diwrnodau Agored/Ymweld. Mae'r cynllun hefyd yn gyfle i breswylwyr gael profiad o weithio ar ddigwyddiadau'r Brifysgol.

Eich Rôl fel Preswylydd Fflat Dangos:

Byddwch yn:

1. Croesawu ymwelwyr i'ch llety mewn modd cyfeillgar, gan roi cyfle iddynt weld eich ystafell, yr ystafell ymolchi en suite (os yw'n berthnasol) a'r gegin.
2. Siarad am eich profiadau cadarnhaol o fyw mewn preswylfa ym Mhrifysgol Abertawe - maen nhw'n gwrando ac yn rhoi sylw i'ch sylwadau am eu bod yn awyddus i glywed am eich profiad chi o fyw mewn preswylfa.

Bydd angen i chi sicrhau

1. bod eich fflat gyfan yn lân ac yn daclus ar ddiwrnod yr ymweliadau.
2. bod yn gyfrifol, gyda'ch gilydd fel preswylwyr y fflat, am gadw ardaloedd cymunedol yn lân ac yn daclus.
3. Rhoi gwybod i ni am unrhyw atgyweiriadau angenrheidiol/difrod cyn gynted ag rydych yn sylwi arnynt.

I ddiolch i chi:

1. Byddwch yn derbyn credyd o £75.00 pan fydd eich holl ymweliadau cynlluniedig wedi'u cwblhau . Caiff y swm hwn ei dynnu o ffioedd llety'ch tymor olaf.
2. Bydd gwasanaeth glanhau ychwanegol ar gyfer eich fflat cyn y Diwrnodau Agored/Ymweld.
3. Byddwn hefyd yn hapus i ddarparu geirda i chi.
4. Os ydych yn methu bodloni'ch ymrwymiadau i'r cynllun yn rheolaidd, efallai y gofynnir i chi symud i lety arall.

Eich ymrwymiad:

1. Disgwylir i chi fod yn bresennol ar yr holl ddiwrnodau ymweld y trefnwyd i chi gymryd rhan ynddynt*.
2. Os na allwch gymryd rhan mewn digwyddiad, gallwch adael eich ystafell ar agor i ymwelwyr ei gweld yn eich absenoldeb a derbyn credyd o hyd.
3. Mae'n bwysig ymateb yn brydlon i e-byst yn gofyn a ydych chi ar gael i gymryd rhan, neu ni fyddwn yn gallu cadarnhau eich cyfranogiad a rhoi credyd i chi am y digwyddiadau rydych wedi'u cwblhau.
4. Byddwch yn derbyn rhestr o ddyddiadau ac amserau ymweld ynghyd ag amserlen**. Ni fyddwn yn gofyn i chi gymryd rhan ar bob dyddiad, ond dylech eu nodi yn eich dyddiadur fel eich bod yn ymwybodol o'r dyddiadau pan allwn ofyn i chi fod ar gael. Rydym yn gwneud ein gorau i newid fflatiau'n rheolaidd.

Ymrwymiadau Academaidd

Rydym yn deall efallai na fyddwch yn gallu bod yn bresennol am rai ymweliadau oherwydd eich ymrwymiadau academaidd (e.e. darlithoedd, seminarau). Yn yr amgylchiadau hyn, os ydych yn fodlon gadael drws eich ystafell ar agor i ganiatáu i ymwelwyr ddod i mewn yn eich absenoldeb, byddwch yn derbyn y credyd o hyd.

***Gallai'r amserlenni newid er mwyn ymdopi â'r galw.**

1. **6 Diwrnod Agored y Brifysgol – 9am – 4pm**
   Fel arfer 2 ddydd Sadwrn ym mis Hydref a 4 arall, 1 y mis o Chwefror ymlaen

Rhestr Wirio: Paratoi ar gyfer Ymweliadau

1. Gwnewch yn siŵr bod eich ystafell, eich ystafell ymolchi en suite (lle bo'n berthnasol) a'r mannau cymunedol yn lân ac yn daclus
2. Golchwch yr holl lestri a'u rhoi i'w cadw yn y cypyrddau
3. Gwnewch yn siŵr bod arwynebau'r gegin yn lân ac nad oes unrhyw sbwriel arnynt
4. Glanhewch unrhyw farciau brwnt uwchben y biniau
5. Cewch wared ar unrhyw annibendod cyffredinol, bagiau plastig, lleiniau sychu llestri brwnt, ayb
6. Defnyddiwch stop drws (ar gael gan Wasanaethau Preswyl) i gadw drws eich ystafell wely ar agor.
7. Agorwch bob ffenestr - gall fod yn dwym iawn!
8. Bydd staff yn gosod arwyddion yn eich fflat ar y diwrnod cyn yr ymweliad - gwnewch yn siŵr nad oes neb yn eu tynnu i lawr.
9. Codwch a gwisgwch yn briodol am y digwyddiad!

Ymwneud ag Ymwelwyr

10. Bydd myfyrwyr llysgennad yn cyfeirio ymwelwyr i'ch llety. Cyfarchwch ymwelwyr wrth iddynt ddod i mewn i'ch fflat.
11. Cyflwynwch eich hun a gwahoddwch ymwelwyr i mewn i weld eich ystafell a'ch ystafell ymolchi en suite (lle bo'n berthnasol).
12. Siaradwch â'r ymwelwyr am eich profiad fel myfyriwr (e.e. beth rydych yn ei astudio, sut gwnaethoch ymgartrefu, sut brofiad yw symud i mewn a chwrdd â'ch cyd-letywyr am y tro cyntaf).

Sylwer:

Os nad ydych yn gallu ymrwymo i'r gofynion uchod, byddwn yn eich tynnu o'r cynllun ac ni chewch eich talu.